Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pentreuchaf
# Pentreuchaf
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 8DZ

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/11/2012**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ar gyrion Pentreuchaf, ger Pwllheli. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos sy'n cynnwys pentrefi Llannor, Llithfaen, Rhydyclafdy yn ogystal â Phentreuchaf. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal a wasanaethir ganddi fel un sydd yn gymysg o ran cefndir cymdeithasol a heb fod yn ffyniannus nac o dan unrhyw anfanteision economaidd.

Mae 96 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 15 o blant meithrin rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Daw 87% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Tua 8% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigur hwn yn llawer is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae gan 20% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd o gwmpas y ffigur cenedlaethol. Mae datganiad statudol ar nifer fach o ddisgyblion.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pentreuchaf yn 2012-2013 yw £3,582. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,839. Mae Ysgol Pentreuchaf yn safle 73 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr hydref 2006.

Penodwyd y pennaeth presennol ym Medi 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da mewn dysgu ac yn eu medrau llythrennedd a chyfathrebu;
- cyflawniad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg sydd o'r un teulu;
- llais y disgybl yn cael lle blaenllaw ym mywyd yr ysgol;
- ansawdd y profiadau dysgu gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau, yn gyson dda;
- y rhan fwyaf o'r addysgu yn dda ac yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain;
- y rhaglen ar gyfer cwnsela a chefnogi disgyblion unigol yn rhagorol; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth frwdfrydig y pennaeth yn cyfleu ymdeimlad clir o bwrpas;
- ffocws pendant yn yr ysgol ar godi safonau a gwelliant parhaus;
- trefniadau hunanarfarnu effeithiol sy'n cael eu gweithredu'n gydwybodol;
- tystiolaeth gref bod yr ysgol wedi gwella dysgu ac addysgu a chodi safonau cyflawniad disgyblion yn sylweddol;
- parodrwydd staff i ymgymryd â mentrau a blaenoriaethau newydd; a bod
- cysylltiadau llwyddiannus gyda nifer helaeth o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad.

## Argymhellion

A1 Cysoni ansawdd marcio gwaith disgyblion i adlewyrchu'r arfer orau.

A2 Creu gwell cysylltiadau gyda gwledydd tramor.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae bron pob disgybl ar draws yr ysgol yn ymdrechu'n galed mewn gwersi ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Gallant ganolbwyntio a dyfalbarhau ar dasgau, maent yn effro i holi ac ateb cwestiynau ac yn trafod eu tasgau yn hyderus. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn arfarnu eu gwaith yn feddylgar a gallant adnabod yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella.

O ystyried eu gallu a'u hoedran, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gymhwyso eu medrau llythrennedd a chyfathrebu ynghyd â'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Wrth ymwneud â thasgau unigol neu wrth gydweithio ar weithgareddau grŵp, mae bron pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn trafod eu gwaith yn hyderus gyda llawer ohonynt yn defnyddio iaith goeth a geirfa estynedig. Mae bron pob un yn dangos hoffter tuag at lyfrau ac yn darllen gyda chywirdeb cynyddol gan dalu sylw da i fynegiant a thestun. Erbyn pen uchaf y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf o'r disgyblion ysgrifennu'n rhugl ac i nifer o bwrpasau. Mae'r ysgrifenwyr mwyaf medrus yn cyflwyno darnau dychmygus a diddorol. Bydd geiriau syml yn cael eu sillafu'n gywir fel rheol a llythrennau'n cael eu ffurfio'n gywir.

Gan mwyaf, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod eu dysgu mewn modd clir a deallus gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ymadroddion a geirfa estynedig. Mae bron pob un yn dangos diddordeb a mwynhad mewn llyfrau ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau megis llyfrau a gwefannau. Mae bron pob disgybl yn ysgrifennu'n hyderus i ystod eang o ddibenion tra mae ychydig o unigolion yn cyfansoddi storïau a barddoniaeth o safon uchel iawn.

Ar draws yr ysgol, mae'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol i wella eu medrau darllen yn gwneud cynnydd da. Gwna'r disgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg gynnydd arwyddocaol yn eu hyfedredd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn defnyddio eu medrau meddwl yn fedrus iawn wrth gyd-gynllunio a datrys problemau ymarferol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau maent yn eu cyflawni.

Mae cyfran y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch yn 2012 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg, datblygiad mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r rhan fwyaf o ysgolion y teulu. Roedd y gyfran a gyflawnodd y lefel uwch (deilliant 6) hefyd yn llawer gwell na'r meincnodau hyn. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae perfformiad y Cyfnod Sylfaen yn y tri maes ymhlith 50% uchaf y grŵp.

Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, ac yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion y teulu. Mae cyfrannau Saesneg a mathemateg ychydig yn is. Roedd y gyfran a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth llawer gwell na'r disgwyl o gymharu â Chymru ac ysgolion tebyg tra roedd y gyfran ar gyfer mathemateg ychydig yn is.

Mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf, mae canlyniadau mewn Cymraeg wedi bod gan mwyaf ymhlith y 50% uchaf o ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Bu canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gan amlaf ymhlith y 50% isaf dros y cyfnod.

### Lles: Rhagorol

Dywed pob disgybl eu bod yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol a'u bod yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae gan bron pob un ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Yn ystod gwersi, mae pob disgybl yn weithgar a brwdfrydig, maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig.

Mae safonau ymddygiad yn gyson dda gyda'r holl ddisgyblion yn cymdeithasu a chwarae'n hapus gyda'i gilydd. Yn ddiwahân, mae disgyblion yn barchus a chwrtais tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Gwna hyn gyfraniad sylweddol at greu ethos dymunol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae'r bri a roddir ar roi lle blaenllaw i lais y disgybl ymhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol yn nodwedd ragorol. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynllunio themâu tymhorol eu dosbarthiadau yn annibynnol, byddant yn trefnu ac yn cynnal cydaddoliad dyddiol heb gymorth oedolion a thrwy'r cyngor ysgol, buont yn ymgyrchu'n egnïol iawn dros faterion sy'n ymwneud ag adeiladau a thiroedd yr ysgol. Mae'r profiadau blaengar hyn yn cryfhau ymglymiad disgyblion i'w dysgu a'u cymuned leol.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb yn dda ac ychydig yn uwch na'r cyfraddau cenedlaethol a chyfraddau ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

### Profiadau dysgu: Da

Mae'r holl staff yn cydgynllunio'n effeithiol er mwyn darparu ystod eang o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n fwy abl a thalentog. Mae'r cyfleoedd rheolaidd a gaiff disgyblion i gyfrannu i'r broses gynllunio yn cynyddu eu perchnogaeth dros eu dysgu yn sylweddol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r profiadau dysgu hynod o ddiddorol a dychmygus a gynllunnir yn galluogi'r plant i wneud cynnydd cyson tuag at fodloni'r deilliannau dysgu angenrheidiol. Trwy gynllunio gofalus, sicrheir bod y cwricwlwm ar ddechrau cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a medrau presennol disgyblion a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae cynllunio trylwyr ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn caffael y medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu angenrheidiol. Darperir yn dda ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd a chaiff nodweddion diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru eu hyrwyddo'n drwyadl iawn. Caiff y profiadau dysgu eu cyfoethogi'n sylweddol gan ymweliadau oddi ar y safle a thrwy groesawu nifer helaeth o ymwelwyr i'r ysgol.

Mae parchu amlddiwylliannau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae strategaethau'r ysgol yn ogystal â rhaglen y cyngor eco, wedi cyfrannu'n arwyddocaol tuag at godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaliadwyedd a gwarchod yr amgylchfyd. Er bod pwyslais cryf ar godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang a pharchu hawliau dynol, nid oes gan yr ysgol gyswllt gweithredol gydag unrhyw wlad dramor.

**Addysgu: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn deillio ar ddysgu da sy'n cymell disgyblion i wneud eu gorau ac yn ennyn eu diddordeb a'u brwdfrydedd. Mae gan athrawon a chymorthyddion wybodaeth bynciol gadarn ac maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ysbrydoli a herio'r disgyblion. Mae'r berthynas waith agos rhwng y staff a disgyblion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol sy'n hybu dysgu effeithiol. Mae'r arfer o rannu nodau'r gwersi ynghyd â'r meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn arwain at ddisgwyliadau clir a gweithio cynhyrchiol. Nodwedd gref o'r addysgu yw'r cyfleoedd cyson a gaiff disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gwaith eu hunain.

Trwy asesu parhaus a dadansoddiadau manwl o ddata asesu, caiff cynnydd pob unigolyn ei fonitro'n barhaus. Mae hyn yn galluogi staff i ddarparu cymorth ychwanegol i grwpiau o ddisgyblion ac unigolion yn ôl yr angen.

Bydd athrawon yn rhoi adborth manwl ar lafar i grwpiau ac unigolion sy'n eu galluogi i wybod pa mor dda y maent ei wneud ar hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Er bod rhai enghreifftiau da o farcio gwaith disgyblion yn effeithiol, nid yw hwn yn arfer gyson ar draws yr ysgol.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni ar gynnydd eu plant o ansawdd da ac yn cynnwys sylwadau cynhwysfawr am gyflawniad a chynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch disgyblion yn ogystal ag annog eu hymglymiad i'w hysgol a'r gymuned ehangach. Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Caiff amser cylch ei ddefnyddio'n effeithiol iawn ar gyfer ymateb i bryderon disgyblion a delio gydag achosion sy'n codi mewn modd agored a sensitif. Mae'r rhaglen arloesol 'Ffrindiau am Oes' a weithredir ar gyfer cwnsela a chefnogi disgyblion unigol yn nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth iechyd a lles. Bu eisoes o gymorth sylweddol i grŵp o ddisgyblion nad oeddent wedi arfer â bod mewn ysgol, i ymdopi'n well â theimladau o ofn, pryder ac iselder. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr ac effeithiol ac yn arwain at gynnydd arwyddocaol gan y disgyblion hyn. Trwy asesu manwl, caiff anghenion penodol disgyblion eu hadnabod yn gynnar ac ymyrraeth ei roi ar waith. Mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at wella safonau cyflawniad a galluogi'r disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm cyfan. Mae'r cymorth a ddarperir wedi'i dargedu'n glir ar gyfer grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft, disgyblion sydd â phroblemau ymddygiad neu â chyflawniad isel. Caiff cynlluniau addysg unigol disgyblion eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd a chynhwysir y rhieni a'u plant yn y broses. Mae cysylltiadau cynhyrchiol wedi'u sefydlu gydag asiantaethau allanol arbenigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol, lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da sydd wedi'i weddu'n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu. Mae'r adeilad o ansawdd da iawn ac mae'r ysgol yn defnyddio pob gofod i bwrpas ac er lles disgyblion. Mae'r ardal y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn adnodd gwerthfawr a diddorol sy'n cynnig profiadau amrywiol i'r disgyblion. Mae'n hyrwyddo'u dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol yn effeithiol iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol gan bennaeth gweithgar a brwdfrydig sy'n cynnig gweledigaeth glir i'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni. Crëir ymdeimlad clir o bwrpas a chyfeiriad cytunedig i waith yr ysgol ac mae disgwyliadau uchel o ran cyflawniad a darpariaeth ar gyfer dysgu.

Mae ffocws clir yn yr ysgol ar godi safonau a gwelliant parhaus. Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn cydweithio'n agos fel tîm ac, o dan arweiniad y pennaeth, wedi bod yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd a dulliau gwahanol o weithio. Mae pob aelod staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol iawn.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth fanwl o berfformiad yr ysgol a'r materion sy'n effeithio arni. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o'u rolau ac maent yn wybodus iawn am gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol. Maent yn ddiweddar wedi dechrau cefnogi'r ysgol drwy ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

Mae'r ysgol yn barod iawn i ymgymryd â mentrau lleol a chenedlaethol, er enghraifft, asesu ar gyfer dysgu, datblygu strategaethau llythrennedd a hybu'r medrau allweddol ar draws y cwricwlwm.  Mae hyn wedi arwain at wella dysgu ac addysgu ac wedi codi safonau cyflawniad disgyblion yn sylweddol.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n gadarn yn niwylliant gwella'r ysgol.  Mae casgliadau'r adroddiad hunanarfarnu yn asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu.  Mae'r adroddiad yn rhoi ffocws clir ar godi safonau, yn heriol ac yn nodi camau gweithredol a dangosyddion llwyddiant o fewn amserlen addas.  Defnyddiwyd ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol.  Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi ar addysgu a chraffu ar waith disgyblion.  Arweiniodd hyn at adnabod cryfderau a gwendidau ac at bennu blaenoriaethau gwella uchelgeisiol.  Cafodd y rhain eu hymgorffori mewn cynllun datblygu ysgol cynhwysfawr sy'n mapio datblygiad yr ysgol yn briodol dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cyfleoedd a gaiff pob aelod staff i gyfrannu i'r prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gryfder amlwg sy'n creu ymdeimlad cryf o berchnogaeth ymhlith holl aelodau'r ysgol.  Yn ogystal, mae sylwadau swyddogion cyswllt yr awdurdod, llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion yn derbyn sylw helaeth.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref sy'n cael effaith arwyddocaol ar safonau a darpariaeth ar draws yr ysgol gyfan.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau llwyddiannus gyda nifer helaeth o bartneriaethau strategol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.  Mae gan yr ysgol berthynas gref iawn gyda'r rhieni a'r gymuned sy'n cyfrannu'n hael at wella'r cyflenwad o adnoddau.  Mae'r wybodaeth a rennir yn rheolaidd gyda'r rhieni yn ehangu eu gwybodaeth am gwricwlwm a gweithgareddau'r ysgol.

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gyda llawer o fusnesau lleol sy'n darparu adnoddau a chymorth gwerthfawr i'r staff a'r disgyblion.  Ceir cydweithrediad buddiol iawn gydag ysgolion cyfagos gyda'r athrawon yn paratoi adnoddau dysgu ar y cyd.

Mae'r cysylltiadau pontio cryf iawn sydd rhwng y cylch meithrin a'r ysgol yn gwneud yn siŵr bod plant meithrin yn ymgartrefu'n gyflym â bywyd yr ysgol a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.  Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â'i chlwstwr o ysgolion i gynllunio ar y cyd, rhannu profiadau a chyfnewid arferion da.  Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn safonau llythrennedd disgyblion ac at ddatblygu adnoddau mathemateg.  Mae cynlluniau trosglwyddo cadarn gyda'r ysgolion uwchradd a chydweithio da wrth gymedroli asesiadau athrawon.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol.  Lleolir athrawon a staff cefnogi yn briodol i wneud y defnydd gorau posibl o'u hamser, arbenigedd a phrofiad.  Mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o'u cyfnod

cynllunio, paratoi ac asesu ac mae’r trefniadau ar gyfer hyn wedi eu rheoli’n dda. Caiff trefniadau rheoli perfformiad eu defnyddio'n effeithiol ar gyfer adnabod a diwallu anghenion datblygiad proffesiynol pellach athrawon a chymorthyddion. Caiff gwybodaeth a medrau staff eu diweddaru'n rheolaidd gan sesiynau hyfforddiant ac maent yn elwa'n sylweddol o gyfleoedd i arsylwi arfer dda mewn ysgolion eraill

Mae adnoddau cynhwysfawr yn yr ysgol yn enwedig ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sy’n cael eu harchwilio, eu cynnal a’u gwella’n rheolaidd.

Caiff staff ac adnoddau ariannol eu defnyddio’n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau’r ysgol. Mae trefniadau cyllidol systematig a thrylwyr a gaiff eu monitro’n barhaus gan y pennaeth a’r llywodraethwyr.

Mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae cyfran y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) neu uwch yn 2012 mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg, datblygiad mathemateg a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r rhan fwyaf o'r ysgolion sydd yn yr un teulu. Roedd y gyfran a gyflawnodd y lefel uwch (deilliant 6) yn llawer gwell na'r meincnodau hyn yn y tri maes dysgu.

Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae perfformiad y Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn y tri maes ymhlith 50% uchaf y grŵp. Dengys Dangosydd Y Cyfnod Sylfaen (canran y disgyblion sy'n cyflawni deilliant 5 neu uwch yn y tri maes dysgu) bod perfformiad yr ysgol bron y gorau yn y teulu ac yn llawer uwch na'r perfformiad cenedlaethol.

Mae cyfran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, ac yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion y teulu. Mae cyfraddau Saesneg a mathemateg ychydig yn is. Mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (dangosydd pwnc craidd) yn debyg iawn i'r cyfartaleddau cenedlaethol a chyfartaleddau ysgolion y teulu. Roedd y gyfran a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) mewn Cymraeg, Saesneg a gwyddoniaeth llawer gwell na'r cyfartaledd teulu tra roedd y gyfran ar gyfer mathemateg ychydig yn is. Mewn cymhariaeth ag ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, mae perfformiad Cymraeg a gwyddoniaeth ymhlith 50% isaf y grŵp gyda Saesneg a mathemateg ymhlith y 25% isaf.

Mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf, mae canlyniadau mewn Cymraeg wedi bod gan mwyaf ymhlith y 50% uchaf o ysgolion gyda chanran tebyg o ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Bu canlyniadau mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth ac yn y dangosydd pwnc craidd, gan amlaf ymhlith y 50% isaf dros y cyfnod.

Er bod bechgyn y Cyfnod Sylfaen wedi perfformio'n well na'r merched yn 2012, nid oes unrhyw batrwm o wahaniaethau rhwng y rhywiau o un flwyddyn i'r llall. Dengys data mewnol yr ysgol ynghyd â'r perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, bod llawer o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd arwyddocaol mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol.

# Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Roedd pob un o'r 47 o holiaduron disgyblion a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol tuag at yr ysgol ac yn llawer uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Dywed bron pob disgybl:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod llawer o gyfleoedd iddynt gael ymarfer corff rheolaidd a'u bod yn cael help gan athrawon ac oedolion i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod gwaith cartref yn eu helpu i wneud cynnydd a'u bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol;
- eu bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol uwchradd;
- bod digon lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith;
- bod yn gwneud yn dda a bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda; a'u bod
- yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd 19 o rieni'r holiadur cyn-arolygiad, sef tua thraean o deuluoedd yr ysgol. Roedd bron pob holiadur yn mynegi bodlonrwydd llwyr ynghylch yr ysgol ac yn cymharu'n ffafriol iawn â'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywed bron pob rhiant:

- eu bod yn fodlon gyda'r ysgol yn gyffredinol a bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plentyn hoffi'r ysgol a'i fod wedi cael cymorth da i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol;
- bod disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod staff yn parchu pob unigolyn ac yn eu trin yn deg;
- bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac yn cael ei helpu i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau a'i fod yn ddiogel tra yn yr ysgol;
- y cânt wybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn; a
- bod yr addysgu'n dda a'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed ychydig iawn o rieni nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Hefin Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gethin Thomas | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.